Llew Llwyfo a Llewelyn Parri —Llên Ladrad?

(Parhâd o'r dudalen flaen)

Llewelyn Parri

Mae'r nofel yn agor gyda hen gyfaill i Llewelyn Parri yn drwm yn ei ddiod. Aiff Llywelyn gartref wedi cynhyrfu a dywed wrth ei wraig beth a welodd. Clyw fod Ifan Llwyd wedi marw yn ei ddiod. Yna cawn olwg ar fagwraeth Llewelyn. Hanai o deulu parchus yn ninas B------ (Bangor yn ddi-os), ei fod wedi magu blas at win ac yntau ond yn chwech oed. Mae Meredydd Parri ei dad yn dotio at y campau. Cynnig llwnc destun i George Washington a wna Parke Madison, a Llewelyn Parri yn yfed iechyd da i Ddewi Sant. Nid yw mam Llewelyn yn cefnogi'r fath ymddygiad. Mae ganddi hithau ferch fach o'r enw Gwen.

The Senator's Son

Caiff Parke ei eithrio o'r coleg ac Alice ei chwaer sy'n torri'r newydd i'w fam. Dirywia iechyd Parke. Mae'n gwella dros fisoedd yr haf a chael gwaith yn swyddfa ei warcheidwad, Mr Cranford y cyfreithiwr. Dychwel Alfred Clyde i Efrog Newydd am ei fod wedi cweryla efo'i ewythr. Llwydda i dynnu Parke oddi ar y llwybr cul. Mae'n ail ddechrau meddwi. Yn y cyfamser mynega Clyde ei gariad at Alice Madison, ei chwaer. Cwyna Cranford am gyfeillion Parke a phenderfyna ei fam symud i fyw ar fferm yn y wlad i dynnu ei mab o demtasiwn. Profir hapusrwydd dros dro cyn i iechyd y fam ddirywio. Mae'n marw ym mreichiau ei mab, sy'n addo peidio meddwi eto iddi, wedi gwaeledd o ryw bedwar mis. Etifedda Parke yr holl eiddo a chymerir ef a'i chwaer i mewn i gartref Mr a Mrs Crawford. Mae Clyde yn syrthio mewn cariad efo Alice.

Llewelyn Parri

Oherwydd galwadau busnes hwylia Meredydd Parri am Efrog Newydd o Fangor. Aiff tri mis heibio ac ni chlywir gair amdano hyd i'r newydd gyrraedd ei fod wedi ei ladd mewn ymladdfa gleddyfau tra yn ei ddiod. Cymer Mr Powell, y cyfreithiwr, a gwarcheidwad Llewelyn a'i chwaer ofal am y ddau ohonynt. Aiff Llewelyn i ffwrdd i ysgol yng Nghaer ac yna i Goleg yng Nghaeredin. Daw'r Albanwr Walter McIntosh i mewn i'r stori. Aiff Llewelyn ac yntau i gyngerdd ac yna i gyfeddach yng nghwmni Walter McIntosh, Ifan Llwyd, Bili Vaughan a Henri Hughes. Daw'r newydd allan y diwrnod wedyn fod Henri Hughes wedi marw yn ei ddiod y noson honno. Dychwela i'r coleg ond mae McIntosh a chyfeillion eraill yn penderfynu ei feddwi. Mae'n colli arholiad ac yn cael ei eithrio o'r coleg. Penderfyna Gwen Parri, ei fam adael y ddinas a mynd i fyw ar fferm yn y wlad. Ond dechreua ei hiechyd wanychu a phan ar ei gwely angau mae Llywelyn yn addo iddi na wnaiff byth feddwi eto. Caiff yntau swydd gyda Mr Powell ei warcheidwad. Cyfaddefa Walter McIntosh ei fod wedi colli ei galon i Gwen.

The Senator's Son

Daw etifeddiaeth Parke yn destun trafod a betia dau gydnabod iddo, St Ormond a **Henry Jenkins** y gallent ei feddwi unwaith eto o fewn wythnos. Mae'r cynllun cyntaf yn methu. Felly rhaid wrth ail un, sef cael merch i gymeryd arni fod dihiryn wedi ymosod arni. Danfonir hi adref gan Parke. Tric yw'r cwbl. Mae St Ormond a Henry Jenkins yn aros amdano. Syrth i'r fagl, twyllir ef o $800 a chaiff ei droi o dŷ Mr a Mrs Crawford. Cyll $2000 ar ei ran, caiff ddychwelyd i'r tŷ, ac ar ben hyn gorfodir ef i logi ystafelloedd mewn gwesty. Mae Alice yn ymbilio ar ei ran a mynega Alfred Clyde wrth Parke ei fod yn caru ei chwaer. Rhoddir cefnogaeth llwyr i'r garwriaeth ganddo.

Yn dilyn cwympo oddi ar ei geffyl ymgeleddir Parke yn nhŷ Mr a Mrs Van Duryn. Mae yntau yn syrthio mewn cariad efo Lucy, eu merch. Ymgeleddir ef a chreu'r darlun (dros dro) o berffeithrwydd bywyd y llwyr ymwrthodwr. Cyfansodda Lucy gân am 'fam angylaidd yn galw ar ei phlentyn i roi heibio yfed gwin. Dychwela Parke i ystafelloedd gwesty.

Llewelyn Parri

Sylweddola ei gydnabod faint y newid ym mywyd Llewelyn a chynlluniant i'w feddwi drwy berswadio merch i gymryd arni ei bod mewn trafferth, iddo yntau ei danfon gartref lle byddai Bili Vaughan a Frederic Jones yn aros amdano. Syrth i'w magl a dychwelyd adref dan ddylanwad. Deffry Mr Powell i sŵn llestri'n torri a thaflu Llewelyn ar y clwt. Aiff Gwen i chwilio amdano oherwydd yr addewid a wnaeth i'w mam pan ar ei gwely angau i ofalu dros ei brawd. Dychwel y ddau i dŷ eu gwarcheidwad lle mae Walter McIntosh. Dywed am ei gariad at Gwen wrth Mr Powell a'i brawd ac maent yn rhoi eu bendith iddo. Ond ni wnaiff Gwen ddim addo mwy na chyfeillgarwch iddo.

Yn y cyfamser mae Llewelyn hefyd wedi syrthio mewn cariad efo Myfanwy Jones. Cred Mr Powell nad yw yn ddigon da iddo. Maent yn cweryla, ac yn nhraddodiad dameg y mab afradlon mae'n gofyn i Mr Powell am yr arian sydd dan ei ofal, ac yn ymadael. Aiff i aros mewn ystafelloedd a dechrau yfed gydag Ifan Llwyd y siopwr.

The Senator's Son

Aiff pethau o ddrwg i waeth ar Parke a rhydd Alfred Clarke siec iddo o $5000 ac addo ei harwyddo ymhen wyth niwrnod os llwyddai i gadw'n sobr. Metha wrthsefyll y demtasiwn, ffugia lofnod Clarke a bancio'r siec. Bygythir carchar o ddeng mlynedd arno. Yr unig obaith sydd ganddo yw apelio ar Gwen i briodi Alfred Clarke. Er mwyn achub ei brawd mae'n cydsynio.

Dychwel yntau i fyw ar y fferm gyda gwas a'i deulu yn lletya yno i'w helpu. Prioda efo Lucy Van Duren. Priodir Alice ac Alfred hefyd ond cyfaddefa hi wrth Lucy am gasineb ei gŵr tuag ati. Mae ei hiechyd yn dirywio er gwaethaf byw mewn tŷ moethus yn Efrog Newydd. Wedi tair blynedd o amser fe enir merch fach, Carrie, i Parke a Lucy. Mynega awydd i ddilyn ôl troed ei dad mewn gwleidyddiaeth. Aiff am Efrog Newydd, gwledda yn yr Astor ac ail ddechrau yfed. Betia a cholli ar ganlyniad


FOURTH THOUSAND.

THE

SENATOR'S SON,

OR,

THE MAINE LAW;

A LAST RESORT;

A STORY DEDICATED

TO

THE LAW MAKERS.

BY

METTA VICTORIA FULLER.

SECOND EDITION.

CLEVELAND, O.

FOOKER AND GATCHEL.

1854.

Wyneb-ddalen The Senator'r Son gan Metta Victoria Fuller

yr etholiad arlywyddol. Dychwela adref yn feddw ar ôl pedair blynedd o ymwrthod.

Llywelyn Parri

Rhaid iddo fynd i Lundain am driniaeth. Cymerir gofal drosto gan Gwen a Morfydd. Dychwel gartref wedi cael adnewyddiad, dod i ffafr mam Morfydd a phriodi. Aiff tair blynedd heb ddiferyn heibio. Daw'n amser etholiad a syrth Llywelyn i'r fagl unwaith eto. Erys allan drwy'r nos. Dychwel gartref i gael gwybod fod Morfydd yn disgwyl ail blentyn. Ni thal unrhyw sylw i ffermio, ac afrada bopeth. Ond daw Walter McIntosh draw efo siec o £500 ac y byddai yn ei llofnodi ymhen wythnos pe gall Llywelyn beidio yfed diod gadarn. Cytuna ond fe'i temtir i ffugio llofnod McIntosh. Daw'r twyll i'r amlwg. Ond ni wnaiff ei erlyn am y drosedd os gwnaiff Gwen gytuno i briodi. O barch at yr addewid a wnaeth ar wely angau ei mam, fe gytuna.

The Senator's Son

Dechreua ddial ar Carrie ei ferch fach. Daw Alice ei chwaer atynt am fod ei gŵr wedi ei gadael a mynd i fyw i'r de. Genir ail blentyn i Lucy ymhen wyth mis, baban bach eiddil sy'n marw'n fis oed. Ceisia Parke foddi ei hun, ond achubir ef gan y gwas. Mae'n yfed yn solet am wyth mis.

Mae cwymp Parke yn cyflymu a thlodi ei wraig a'i ferch yn cynyddu. Aiff y sefyllfa o ddrwg i waeth a theflir ef i'r carchar am dair wythnos. Daw y nofel i ben gyda'i farwolaeth ddychrynllyd.

Clo y nofel yw crwsâd dros ledaeniad 'Deddf Maine.' Pasiwyd deddf gan dalaith Maine ym 1851 yn gwahardd diodydd